# CAN NEWYDD,

YN RHODDI HANES

AM GARWRIAETH A PHRIODAS

# HENRY JAMES WILLCOT,

# A HARRIET WILLIAMS,

GERLLAW TAUNTON,

YN NGLAD YR HAF, SOMERSETSHIRE,

*Pa rai a briodasant yn Caerodor, Gorphenaf y 25ain,* 1837.

---

Mesur "Bryniau yr Iwerddon."

---

Chwi gymru de a gogledd rai mwynaidd fawr a mân,
Gwrandewch yn awr yn ufydd mae genyf newydd gân,
Dull cariad yw fy nhestun i'w ddilyn yma'n ddwys,
Yr hwn nid oes a'i conc'ra ond angau penaf pwys.

2

Mae cariad yn rhagori ar bob peth yn y byd,
Mae'n well nag aur yr India a'i golud goreu 'nghyd,
Un peth yn werthfawrocach na chywir gariad gwiw,
Ni welwyd ac ni welir, dan awyr eglur yw.

3

'Roedd gwr boneddig gwiwlan mewn rhan o wlad yr
yr Haf,
Ac unig fab a feddai, mynegu'n oleu wnaf,
Mewn glendid yn rhagori ar feibion fawr a mân,
A'i rodiad mewn anrhydedd yr impyn gloywedd glan.

4

'Roedd hefyd forwyn gyflog odidog gan ei dad,
A'r mab yn wir a'i hoffai, mi dd'wedaf yn ddiwad,
Rho'es arni ei holl fwriad trwy gariad yn ddigudd,
Ei galon oedd ar dori am dani nos a dydd,

5
P'le bynag o'r byd y byddai 'doedd dim a'i boddai fe,
Ond golwg ei anwylyd un hyfryd dan y ne,
Dywedodd wrthi'n eglur mewn synwyr mawr a serch,
Mi hoffais eich cyfeillach o flaen un fath o ferch.

6
Atebai'r siriol seren i'r bachgen trwy fawr bwyll,
Gan dd'wedyd wrth y glanddyn nid ydyw hyn ond twyll,
Pe bawn yn gwrando'ch araeth a'ch gweniaeth heb nacâd,
Mae'n ddigon amlwg i mi cawn felly brofi brad.

7
Na fydded ar dy feddwl fath drwbl hyn o dro,
Mae'n well gan i am danat na merched bryn a bro,
A chyda'th di lliw'r inon mae 'nghalon union i,
Mewn cariad mawr y syrthiais y dydd yr hoffais di.

8
A'r ferch ddywedodd wrtho, ni choelia m'no chwi,
'Rwy'n gwybod nad yw'ch meddwl ond am fy nwyllo i,
Mae'n g'wilydd i chwi'm denu i brofi c'ledi clir,
Ni chewch chwi mo fy hudo chwi ellwch goelio'r gwir.

9
Er cymaint oedd y bachgen am gael y gangen gu,
Fe fethodd ef er hyny yn glir a'i denu hi,
Ei ceisio ddyddiau lawer am gael ei mwynder maith,
Nid oedd hi'n gwrando arno na choelio m'ono chwaith.

10
A chan ei fod yn ceisio ei denu nos a dydd,
Gadawodd ei gwasanaeth ac adref aeth heb gudd,
Gan ddweud ni chewch fy nhwyllo er maint eich eiddo mawr,
Waith merched glan arglwyddi sy'n addas i chw 'nawr.

11
Pan welai'r mab na chredai lliw'r blodeu goreu gardd,
Un gair a dd'wedodd wrthi y lili heini hardd,
I'w galon ef daeth galar a chwerwder brudd-der bron,
Waith methu cael cwmpaniaeth y landeg eneth lon.

X05 224694

12

Bu felly ddwy o flwyddi yn gwaelu dyma'r gwir,
O gariad at lliw'r hinon i'w galon ef daeth cur,
Er danfon llawer llythyr at hon mewn pyrion pwyll,
Fe greda'r ferch o'i gwirfodd nad ydoedd hyn ond twyll.

13

I Fryste i was'naethu fe aeth y feinir fwyn,
Yn forwyn i dy tafarn y gangen deg ar dwyn,
Pan wybu'r mab boneddig ei bod hi yno'n byw,
Meddvliodd ynddo'i hunan ail dreio'r seren syw.

14

A gwisgo dillad llongwr wnae'r bachgen hardda'n bod,
I Friste'r aeth i rodio fel morwr glan o glod,
Ac i'r ty tafarn hyny lle'r oedd ei gariad gwiw,
Gwaith gwell oedd ganddo'i gweled nac unrhyw ferch yn fyw.

15

Nid hir y bu ef yno nes iddo dwyn ei serch,,
Fe aeth yn gywir garu rhwng hwn a'r fwyngu ferch,
'Rhoes arno'i ffansi'n ffyddlon lliw blodau'r meillion mân
A phwyntio dydd priodas yn addas yno wnan'.

16

Yn Redcliff eglwys hynod rwy'n gosod i chwi'r gwir,
'Roed eu gostegion allan rai diddan iawn ar dir,
Ac yna'r mab o'i wirfodd briododd deg o bryd,
A llawen oedd ei galon o herwydd hon o hyd.

17

'Nol darfod bwyta cinio wrth hyted yno'n hy,
Pan ydoedd pawb yn llawen dywedodd gwr y ty,
Boed i chwi fywyd gweddaidd eich dauwedd yn ddidor
Ac nac anghofiwch Harriet 'nol myned ar y mor.

21

A'r glanddyn a atebai mewn geiriau penaf pwyll,
Ni bum i erioed yn forwr 'rwy'n dywedyd yn ddi dwyll,
Myfi yw Henry Wilcot o Tauton gyson gu,
A' i chwi Harriet hynod ddim yn fy nabod i.

19

Hi syrthiodd yn ei freichiau lle gwelai'r gwmp'ni gwiw,
Wrth wel'd ei chariad ffyddlon bob troion iddi'n driw,
Gan dd'wedyd Henry hawddgar ddeallgar yn ei ddydd,
'Rwyf 'nawr yn gorfod coelio mae fyno Duw a fydd.

20

Adroddai'r mab yr hanes i'r cwmp'ni cynes cu,
Fe draethodd yno'r cwbl yn fanwl fel a fu,
Gan ddweud fy Harriet wiwber mae'n amser goreu 'nol
Mi gefais fy nymuniad a 'ngharīad yn fy nghol.

21

A thranoeth gyda'i gilydd mi dd'wedaf yn ddi wad,
Hwy aethant mewn llawenydd i dy ei fam a'i dad,
Bu yno ddawns a miwsig notedig yn y ty,
Dymunai pawb am lwyddiant i'r mab a'i gariad gu.

22

Wel gwelwch ieuenctyd gwiwlon, o galon oll i gyd,
Mae gwell yw cariad ffyddlon, na holl drysorau'r byd,
Boed i chwi garu beunydd eich gilydd yn ddi gudd,
Priodas urddas hardda yw'r state gysona sydd.

R. Williams, a'i Cânt.

---

T. PRICE, ARGRAFFYDD, MERTHYR.